| | |
|---|---|
| CYFARFOD | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| DYDDIAD | **21 TACHWEDD 2022** |
| TEITL | **Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol Cysylltiedig â'r Hinsawdd (‘TCFD’) - Ymgynghoriad ‘TCFD’** |
| PWRPAS | **I gyflwyno’r ymateb gan Cronfa Bensiwn Gwynedd i’r ymgynghoriad** |
| ARGYMHELLIAD | **Cymeradwyo’r ymateb** |
| AWDUR | **Dafydd L. Edwards, Cyfarwyddwr y Gronfa** |

## 1. Ymgynghoriad Llywodraeth y DU

Gydag effaith newid hinsawdd yn cael ei theimlo'n fwy difrifol ar draws y byd, ar y 1af o Fedi lansiodd Adran Lefelu i Fyny, Tai a Chymunedau (‘DLUHC’) Llywodraeth y DU ymgynghoriad ar lywodraethu ac adrodd ar risgiau hinsawdd yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL).

Yn ôl y disgwyl, mae'r cynigion am ei wneud yn ofynnol i awdurdodau gweinyddol y CPLlL asesu, rheoli ac adrodd ar risgiau sy’n ymwneud â’r hinsawdd, yn unol ag argymhellion y Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol Cysylltiedig â’r Hinsawdd (‘TCFD’), a disgwylir i reoliadau ddod i rym erbyn Ebrill 2023.

Mae’r ymgynghoriad a’r cynigion yma’n berthnasol i holl gronfeydd CPLlL Cymru a Lloegr, ac fe’u nodir ymhen y ddolen ganlynol –

> Local Government Pension Scheme (England and Wales): Governance and reporting of climate change risks - GOV.UK (www.gov.uk)

## 2. Ymateb i’r Ymgynghoriad

Mae’r ymateb i’r ymgynghoriad i’w weld yn Atodiad 1. Mae hwn wedi ei baratoi gyda mewnbwn gan ymgynghorwyr y gronfa, Hymans Robertson.

## 3. Argymhelliad

Gofynnir i'r Pwyllgor gymeradwyo’r ymateb.